| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Tachwedd 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Bobby Feeley<br>Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Sophie Haworth-Booth<br>Swyddog Comisiynu a Thendro** |
| **Teitl:** | **Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2015-18** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?
Y Cynllun Comisiynu Lleol (CCLl) tair blynedd ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl (CP) yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?
Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo'r CCLl ar gyfer 2015-18 cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru (PCRh) ym mis Ionawr 2015.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?
Cymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2015-18, cyn i'r cynllun gael ei gyflwyno i'r PCRh ym mis Ionawr 2015.

## 4. Manylion yr Adroddiad
Mae Cefnogi Pobl yn fframwaith polisi a llif arian i gynnig gwasanaethau cefnogi yn ymwneud â thai i bobl ddiamddiffyn, gan gynnwys; pobl ifanc, pobl hŷn, pobl sy'n dianc rhag trais domestig, pobl ddigartref, pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, pobl ag anableddau dysgu, pobl gydag anghenion camddefnyddio sylweddau, cyn-droseddwyr ac eraill.

Nod cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yw galluogi pobl i gadw eu daliadaeth tai, sy'n aml yn denantiaeth, trwy ddatblygu a chynnal eu hyder a'u sgiliau i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i gwerthuso ar lefel genedlaethol ac wedi cyflawni buddion ariannol a buddion eraill cadarnhaol iawn.

Mae'n ofynnol i dimau Cefnogi Pobl ar draws Cymru gyflwyno CCLl i'w Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Ionawr bob blwyddyn yn manylu ar eu blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn ystod y 3 blynedd nesaf, yn ogystal â chynllun gwariant 3 blynedd.

<u>Y Sefyllfa Bresennol</u>
Roedd newidiadau i'r fformiwla ddosbarthu cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl yn 2012 wedi arwain at doriadau o 20% i Cefnogi Pobl Sir Ddinbych dros 5 mlynedd rhwng 2012-13 a 2016-17. Mae toriadau ychwanegol i bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi arwain at doriadau pellach i Cefnogi Pobl, a fydd yn parhau i mewn i 2017-18.

Cafodd y toriadau hyn eu rheoli yn 2012-13, 2013-14, a 2014-15 heb effeithio’n sylweddol ar lefelau gwasanaeth, gyda'r dyraniad grant cyfredol yn £6.1 miliwn ar gyfer 2014-15. Mewn llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 7 Tachwedd 2014, mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2015-16 wedi gostwng gan 10.4% yn £5.5 miliwn. Rhagwelir y bydd gennym lefel debyg o doriadau yn 2016-17 gyda 5% pellach yn 2017-18.

Mae’r CCLl 2015-18 wedi canolbwyntio ar reoli’r gostyngiad ailddosbarthu o 5.8% a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2014, tra hefyd mewn sefyllfa i ymateb i doriadau ychwanegol yn y gyllideb mewn modd sy’n lleihau’r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn golygu trafod arbedion effeithlonrwydd ac ailfodelu prosiectau presennol gyda darparwyr gwasanaethau, gadael prosiectau nad ydynt wedi cael eu comisiynu hyd yma, a dadgomisiynu prosiectau nad ydynt bellach yn addas at y diben. Mae toriadau cyllideb ychwanegol o bosibl yn golygu dadgomisiynu prosiectau sy'n dal yn strategol berthnasol, fodd bynnag, bydd y penderfyniadau hyn ond yn cael eu gwneud yn dilyn adolygiad gwasanaeth llawn a thrwy ddefnyddio ein matrics Blaenoriaeth Strategol i Ariannu sy'n categoreiddio prosiectau fel blaenoriaeth uchel, canolig neu isel i’w ariannu. Mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn y broses o ddrafftio strategaeth ddatgomisiynu a fydd yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd.

Gyda gostyngiad dangosol o 10.4% yn 2015-16, a thoriadau pellach yn y blynyddoedd dilynol, mae Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn wynebu colled sylweddol o arian. Bydd y toriadau hyn yn effeithio ar y gwasanaethau Cefnogi Pobl a ddarperir yn fewnol gan y Cyngor trwy’r Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; yn ogystal â'r rhai a ddarperir yn allanol, yn aml gan sefydliadau elusennol.

Mae manylion y camau a gynigir yn 2015-18 wedi eu manylu ar dudalennau 21-36 o'r Cynllun Comisiynu Lleol atodedig.

Oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â’r toriadau dros y 3 blynedd nesaf, nid yw wedi bod yn bosibl cynhyrchu cynllun gwario 3 blynedd. Nid ydym mewn sefyllfa i gynllunio mor bell â hyn ymlaen nes y cawn beth sicrwydd ynglŷn â’r lefelau ariannu tebygol. Mae Atodiad 1 yn rhoi gostyngiadau dangosol gan y darparwr yn seiliedig ar doriadau a nodir o 10.4% ar gyfer 2015-16.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd y prosiectau a’r camau arfaethedig o fewn y CCLl yn cyfrannu at gefnogi Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych 2012-17 yn y meysydd canlynol:

- Datblygu’r economi leol
- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da
- Moderneiddio’r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i’n cwsmeriaid

Bydd cydweithio rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru a strategaeth ranbarthol ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau yn cyfrannu at reoli'r lleihad mewn grant a diogelu gwasanaethau rheng flaen ar gyfer grwpiau diamddiffyn.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Mae'r gyllideb a nodir ar gyfer 2015-16 yn £5,489,693, sef gostyngiad o £637,608 (10.4%). Rhagwelir y bydd gennym lefel debyg o doriadau yn 2016-17 gyda 5% pellach yn 2017-18.
Bydd y toriadau hyn yn effeithio ar wasanaethau mewnol sy'n cael eu hariannu gan Cefnogi Pobl Sir Ddinbych, gan gynnwys Tai, Gwasanaethau Oedolion a Busnes a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd; yn ogystal â'r rhai a ddarperir yn allanol, yn aml gan sefydliadau elusennol.

Bydd y prosiectau a'r newidiadau a nodwyd yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb Cefnogi Pobl a ddyrannwyd i Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.**
Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau fel rhan o'r Cynllun Comisiynu Lleol 2015-18, sy'n:
- Manylu ar yr ymgynghoriad gafodd ei gynnal i ddatblygu'r CCLl a nodi unrhyw effaith negyddol annisgwyl;
- Tynnu sylw at y data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd drwy'r broses mapio anghenion, gan gynnwys data dienw ar nodweddion gwarchodedig;
- Yn cydnabod yr heriau a wynebir wrth weithredu'r toriadau i wasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ddiamddiffyn;
- Yn cadarnhau bod y gwasanaethau Cefnogi Pobl yn cael eu defnyddio gan yr holl grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- Cadarnhau bod pob ymdrech rhesymol wedi'i wneud i ddileu neu leihau unrhyw effaith anghymesur posibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac y bydd Cefnogi Pobl yn parhau i fonitro effaith unrhyw newidiadau a wnaed.

Gellir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar dudalennau 37-41 o'r CCLl ynghlwm.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
Cynhaliodd Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Sir Ddinbych dri chyfarfod yn ystod cyfnod datblygu'r adroddiad hwn ac ystyriodd y data mapio anghenion, gwybodaeth map cyflenwad ac adborth gan fudd-ddeiliaid a chyfarfodydd ymgynghori.

Cynhaliwyd proses ymgynghori deg wythnos rhwng Gorffennaf a Medi, a mynychwyd pum cyfarfod gyda Defnyddwyr Gwasanaeth, a mynychwyd nifer o gyfarfodydd budd-ddeiliaid i gyflwyno'r CCLl. Cyflwynwyd y cynllun i'r Fforwm Darparwyr Cefnogi Pobl ym mis Gorffennaf hefyd. Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp Cynllunio CP am farn, sylwadau ac awgrymiadau o'r broses i hysbysu datblygiad y cynllun hwn.

Cafodd y ddogfen derfynol ei chymeradwyo gan Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl ym mis Medi 2014, ac anfonwyd at yr holl Gynghorwyr Sir er gwybodaeth. Mae'r adroddiad wedi ei ddiweddaru ar ôl derbyn y dyraniad grant dangosol gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet, bydd y CCLl yn cael ei gyflwyno ar gyfer ei ystyried gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2015.

Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau Cefnogi Pobl ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac yn cael ei dosbarthu i'r holl grwpiau cynllunio a fforymau presennol sy'n gysylltiedig â Chefnogi Pobl yn Sir Ddinbych.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd y gostyngiadau mewn cyllid grant a'r goblygiadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl - â'r effaith ehangach ar gyllidebau gofal cymdeithasol eraill yn parhau i gael eu monitro'n ofalus.

Er bod lefel y toriadau i'r grant yn arbennig o heriol, mae hyn yn rhywbeth a ragwelwyd sawl blwyddyn yn ôl a'r rheswm pam y cytunodd y Cyngor i sefydlu cronfa wrth gefn i helpu i liniaru effaith y toriadau, yn enwedig yn y Gwasanaethau Oedolion lle mae'r effaith fwyaf yn debygol o gael ei deimlo.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r cynigion i reoli'r lleihad mewn arian grant yn 2015-16 yn rhesymol yn seiliedig ar y ffigwr 5.8% a nodwyd .

Gallai toriadau pellach sy'n fwy na 5.8% beri risgiau sylweddol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth:

- Mae graddfa a byr rybudd am doriadau o'r fath yn ei gwneud yn anodd i wneud penderfyniadau ynghylch sut i weinyddu'r toriadau hyn mewn ffordd strategol a thryloyw.
- Mae'n rhaid i doriadau gael eu hystyried yn rhanbarthol - nid yn unig mae yna wahanol farn a allai fod o amgylch y blaenoriaethau rhanbarthol i ariannu, ond gallai lefel y toriadau ansefydlogi darparwyr/elusennau cyfan sy'n gweithio ar draws y rhanbarth.
- Gall hyn gael sgil-effaith ar niweidio hyder darparwyr a'r berthynas dda sydd gennym gyda nhw - gall hyn gael ei reoli i ryw raddau trwy eu hysbysu, rhannu gwybodaeth fel y byddwn yn ei derbyn ac rydym wedi gwneud hynny.
- Ni fydd yn bosibl rheoli toriadau o'r maint hwn yn syml drwy ailfodelu gwasanaethau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd, ond bydd yn golygu bod angen dadgomisiynu gwasanaethau cyfan sy'n darparu cefnogaeth o ansawdd. Bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau rheng flaen a bydd yn lleihau cymorth mawr ei angen ar gyfer rhai o'n trigolion mwyaf diamddiffyn yn Sir Ddinbych.
- Mae Cefnogi Pobl yn rhyddhau'r baich ar wasanaethau statudol sydd wedi gorymestyn eisoes megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu, trwy atal pobl rhag dirywio a mynd i sefyllfa o argyfwng. Bydd toriadau pellach i Cefnogi Pobl yn rhoi mwy fyth o bwysau ar y gwasanaethau statudol hyn ar adeg pan mae yna eisoes doriadau sylweddol yn y gyllideb gan arwain at newidiadau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus.
- Fel yr uchod, bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i liniaru toriadau yn y Gwasanaethau Oedolion tra bod trefniadau cymorth amgen yn cael eu datblygu ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Bydd gostyngiadau grant yn cael ei reoli mewn ffordd strategol. Ni fydd y toriadau'n cael eu rheoli trwy doriadau tameidiog yn y cyllidebau. Mae Cefnogi Pobl wedi ymrwymo i wneud y penderfyniadau anodd hyn mewn dull ymgynghorol a thryloyw a

fydd yn cynnwys ystyried barn darparwyr yr effeithir arnynt, Defnyddwyr Gwasanaeth a budd-ddeiliaid. Bydd Cefnogi Pobl yn ymdrechu i ddarparu mwy am lai, ond cydnabyddir bod y galw yn aml yn fwy na'r ddarpariaeth. Bydd Cefnogi Pobl yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cael eu cynnal ar gyfer y bobl fwyaf diamddiffyn ar draws pob grŵp cyflenwi gwasanaeth. Bydd Cefnogi Pobl yn sicrhau bod y prosiectau cymorth yr ydym yn parhau i'w comisiynu yn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai diogel, o ansawdd uchel, arloesol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol (1972).